

Seibr-ddiogelwch | Mat Adolygu

Pori dros ysgwydd


- Mae'r math hwn o ymosodiad yn defnyddio arswylu uniongyrchol i gael gwybodaeth gan ddefnyddiwr.
- Mae'n gymharol syml i'w gyflawni, gan ei fod yn golygu sefyll wrth ochr rhywun a'i wyluo wrth iddo lenwi ffurflen neu roi rhif PIN.

Chwistrelliad SQL

- Dyma dechneg lle gall defnyddwyr maleisus chwistrellu gorchmynion SQL i ddatganiadau SQL presennol.
- Mae gorchmynion SQL wedi'u chwistrellu yn gallu addasu datganiadau SQL a pheryglu diogelwch y wybodaeth a gedwir mewn systemau cronfa ddata.

Ymosodiad DoS

- Dyma dechneg lle gall defnyddwyr maleisus chwistrellu gorchmynion SQL i ddatganiadau SQL presennol.
- Mae gorchmynion SQL wedi'u chwistrellu yn gallu addasu datganiadau SQL a pheryglu diogelwch y wybodaeth a gedwir mewn systemau cronfa ddata.



Seilledig ar gyfrinair

- Gall unigolyn / rhaglen cyfrifiadurol gynnal y mathau canlynol o ymosodiadau cyfrinair:
- Ymosodiad geiriadur
- Ymosodiad dyfalu cyfrinair
- Dyfalu

Ffugio cyfeiriad IP

- Mae ffugio cyfeiriad IP yn golygu bod yr ymosodwr yn newid cyfeiriad IP gwefan sy'n golygu bod ymwelydd sy'n teipio URL y wefan yn cael ei arallgyfeirio i wefan dwyllodrus.
- Yna, gall yr ymosodwr ddefnyddio'r wefan hon i ddwyn data sensitif.

Peirianeg gymdeithasol

- Mae peirianeg gymdeithasol yn golygu twyllo defnyddiwr i rannu gwybodaeth sensitif fel cyfrinair trwy esgus bod yn weinyddwr system.
- Fel arfer, cynhelir y math hwn o ymosodiad trwy negeseuon gwe-rwydo.

Dulliau o ddiogelu rhag maleiswedd

- Meddalwedd diogelu rhag firsau
 - Mur cadarn
- Diweddariadau system gweithredu
- Fersiynau diweddaraf porwyr gwe
- Amlygu negeseuon gwe-rwydo

Dulliau o adnabod nodweddion bregus mewn systemau

- cyfrifiadurol
 - Creu of troed
 - Hacio moesegol
 - Profion treiddio
 - Diogel trwy Ddylunio

Mae seibr-ddiogelwch yn cyfeirio at yr amrywiaeth o fesurau y gellir eu cymryd i ddiogelu systemau cyfrifiadurol, rhwydweithiau a data rhag mynediad heb ei awdurdodi neu ymosodiadau seibr. Caiff ymosodiadau seibr eu cyflawni trwy ddefnyddio maleiswedd. Maleiswedd yw'r term a ddefnyddir i ddisgrifio meddalwedd faleisus. Mae'r math hwn o feddalwedd wedi'i dylunio'n benodol i amharu, niweidio neu gael mynediad heb awdurdod i system gyfrifiadurol.



Seibr-ddiogelwch | Geirfa

Lefelau mynediad

- Mae lefelau mynediad defnyddwr yn ddull a ddefnyddir ar rwydwaith i bennu pa ganiatâd darllen ac ysgrifennu y gall defnyddwr eu cael.

Amgryptio

- Amgryptio yw'r broses o ddefnyddio algorithm i drawsnewid gwybodaeth sy'n golygu ei bod annarllenadwy i ddefnyddwyr heb eu hawdurdodi.

Archifo

- Archifo yw'r broses o storio data nad yw'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd neu'n rheolaidd. Caiff ei gadw am resymau diogelwch, cyfreithiol neu hanesyddol.

Seibr-ddiogelwch

- Mae seibr-ddiogelwch yn cyfeirio at yr amrywiaeth o fesurau y gellir eu cymryd i ddiogelu systemau cyfrifiadurol, rhwydweithiau a data rhag mynediad heb ei awdurdodi neu ymosodiadau seibr.

Ymosodiadau seibr

- Mae ymosodiadau seibr yn ymosodiadau ar rwydwaith trwy ddefnyddio maleiswedd.

Faleiswedd

- Maleiswedd yw'r term a ddefnyddir i ddisgrifio meddalwedd sydd wedi'i ddylunio i amharu ar system gyfrifiadurol a'i niweidio o bosibl.

Feirws

- Mae feirws yn rhaglen a all ail-greu ei hun a lledaenu o un system i'r llall trwy atodi ei hun i ffeiliau lletyol.

Cynrhonyn

- Mae cynrhonyn yn rhaglenni a all ail-greu eu hunain, sy'n dod i hyd i fannau gwan mewn systemau gweithredu ac yn galluogi i haciwr gael rheolaeth o system gyfrifiadurol wedi'i heintio o bell.

Trojan

- Mae Trojan yn rhaglen sy'n ymddangos fel petai'n cyflawni swyddogaeth ddefnyddiol i'r defnyddiwr, ond mae hefyd yn darparu 'drws cefn' sy'n galluogi dwyn data.

Keyloggers

- Mae'r math hwn o faleiswedd yn cofnodi'r bysellau sy'n cael eu pwyso gan ddefnyddiwr ar system gyfrifiadurol. Yna, caiff y cofnodion hyn eu hastudio gan drydydd parti er mwyn amlygu a manteisio ar ddata personol a sensitif fel cyfrineiriau yn hawdd.

Hysbyswedd

- Mae'r rhaglenni hyn yn gosod hysbysebion ar dudalennau a rhaglenni ar system gyfrifiadurol defnyddiwr gyda'r nod o gael refferniw hysbysebu i'r crëwr o'r rhaglen hysbyswedd.

Meddalwedd ysbio

- Mae meddalwedd ysbio yn gallu cael ei ddefnyddio i gasglu data defnyddiwr yn ddwyrbod iddo.

Meddalwedd diogelu rhag firsau

- Mae hwn yn ddarn o feddalwedd sy'n cael ei lwytho i gof y system gyfrifiadurol pan fydd yn rhedeg. Mae'n monitro gweithgarwch y system gyfrifiadurol am arwyddion o feirws.

Pori dros ysgwydd

- Mae pori dros ysgwydd yn golygu defnyddio arsylwi uniongyrchol er mwyn cael gwybodaeth.

Chwistrelliad SQL

- Dyma dechneg lle gall defnyddwr maleisus chwistrellu gorchmynion SQL i ddatganiadau SQL presennol.

Ymosodiad DoS

- Nid yw ymosodiad gwrthod gwasanaeth (DoS) yn ceisio torri diogelwch y system, ond mae'n ceisio sicrhau nad yw eich gwefan a'ch gwneiddion ar gael i ddefnyddwyr.

Ymosodiad geiriadur

- Mae'r math hwn o ymosodiad cyfrinair yn defnyddio ffeil syml sy'n cynnwys geiriau sydd i'w gweld mewn geiriadur. Mae'r ymosodiad hwn yn defnyddio'r union math o eiriau y mae llawer o bobl yn eu defnyddio fel cyfrinair.

Ymosodiad dyfalu cyfrinair

- Mae'r math hwn o ymosodiad cyfrinair yn debyg i ymosodiad geiriadur, ond mae'n gallu canfod geiriau nad ydynt yn y geiriadur trwy ddyfalu'r holl gyfuniadau alffaniwmmerig posibl, o aaa1 i zzz10.

Ffugio cyfeiriad IP

- Mae ffugio cyfeiriad IP yn golygu bod yr ymosodwr yn newid cyfeiriad IP gwefan sy'n golygu bod ymwelydd sy'n teipio URL y wefan yn cael ei arallgyfeirio i wefan dwyllodrus.

Peirianeg gymdeithasol

- Mae peirianeg gymdeithasol yn golygu twyllo defnyddiwr i rannu gwybodaeth sensitif fel cyfrinair trwy esgu bod yn weinyddwr system.

Creu ôl troed

- Mae ôl troed yn golygu casglu'r holl wybodaeth sydd ar gael am system gyfrifiadurol. Yna, dylai profwr treiddio allu defnyddio'r wybodaeth hon i ddarganfod faint o fanylion y gallai ymosodwr posibl ei ddysgu am y system gyfrifiadurol honno.

